YR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

# A GAREM



LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Yr Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ledled Cymru, rhannodd miloedd o bobl eu profiadau o iechyd a go

Mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw a

## Mynediad sy'n gweithio i bawb

Dylai gofal fod ar gael pryd bynnag y bo ei angen – ar–lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb – heb rwystrau a achosir gan ddaearyddiaeth, iaith, neu allgáu digidol.

## Urddas a pharch, bob tro

Mae pobl eisiau cael eu gwrando, eu credu, a'u trin â charedigrwydd ym mhob cam o'r gofal.

## Gofal a chefnogaeth amserol wrth aros

Mae gofal lle a phryd bynnag y mae ei angen ar bobl yn hanfodol ar gyfer diogelwch, lles ac ymddiriedaeth. Pan na ellir osgoi aros, dylai cefnogaeth a chyfathrebu clir sicrhau nad yw pobl byth yn teimlo eu bod wedi'u hanghofio.

## Dylai gofal gydnabod ac ymateb i'r person cyfan

Mae pobl eisiau gwasanaethau sy'n deall eu hamgylchiadau unigryw, yn eu trin â thrugaredd, ac yn ystyried pob agwedd ar eu hiechyd a'u bywyd, nid cyflwr yn unig.

**Dyma'r sylfaen ar gyfer system well. G**

# a Garem: Egwyddorion y bobl

ofal cymdeithasol. Roedd eu lleisiau'n glir: *"Trin ni fel pobl, nid rhifau."*

ac yn cynnig canllaw ar gyfer llunio gwasanaethau sy'n gweithio i bawb.

### Cyfathrebu clir a gonest

Ni ddylai neb gael ei adael allan. Mae pobl eisiau diweddariadau amserol, iaith glir, a gonestrwydd ynglŷn ag oediadau.

### Gofal cydgysylltiedig sy'n teimlo'n ddi-dor

Dylai gwasanaethau gydweithio o amgylch y person, fel nad oes rhaid i bobl ailadrodd eu stori na dod o hyd i'w ffordd trwy wasanaethau ar eu pen eu hunain.

### Gwasanaethau cynhwysol, hygyrch a theg i bawb

Dylai gofal adlewyrchu hawliau a hunaniaethau, a chael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig ag iaith, diwylliant, anabledd a mynediad digidol.

### Gofal a chefnogaeth sy'n galluogi annibyniaeth

Dylai gofal a chymorth helpu pobl i fyw gydag urddas, cysylltiad a dewis. Mae angen cymorth ystyrlon i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys seibiant, cyngor a chymorth emosiynol.

**adewch i ni ei adeiladu gyda'n gilydd.**

Sganiwch y cod QR i ddarllen yr adroddiad llawn a'r ryseitiau ar gyfer gweithredu

## Ymunwch â'r sgwrs

Facebook @LlaisCymruWales

LinkedIn Llais-Cymru

Instagram @Llais_Cymru

Os hoffech roi adborth i ni ar y cyhoeddiad hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Os ysgrifennwch atom yn y Gymraeg, byddwn yn ateb yn y Gymraeg.

Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

**Llais**
**Adeiladau'r Goron,**
**Parc Cathays,**
**Rhodfa'r Brenin Edward VII,**
**Caerdydd.**
**CF10 3NQ**

**02920 235 558**
**ymholiadau@llaiscymru.org**
**www.llaiscymru.org**

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care